General Optical Council

Gwiriwch fod eich optegydd wedi cofrestru

Mae'r llyfryn hwn yn dweud wrthych chi pwy ydym ni, y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC). Mae'n dweud wrthych chi hefyd beth rydym yn ei wneud a sut y gall ein gwasanaethau eich help chi.

Amdanom ni

Ni sy'n rheoleiddio optegwyr, myfyrwyr sy'n hyfforddi i fod yn optegwyr a busnesau optegol yn y DU. Ar hyn o bryd mae rhyw 23,500 o optometryddion, optegwyr dosbarthu, myfyrwyr optegol a busnesau optegol ar ein cofrestri. Daw ein pwerau o Ddeddf Optegwyr 1989.

Beth yw ystyr y geiriau gwahanol?

Optometrydd yw'r person sy'n profi'ch golwg. Gallan nhw ffitio a chyflenwi sbectol neu lensys cyffwrdd hefyd.

Optegydd dosbarthu yw'r person sy'n ffitio ac yn cyflenwi eich sbectol a lensys cyffwrdd.

Mae **offthalmolegwyr** ac **ymarferwyr meddygol offthalmig (OMPs)** yn feddygon sydd wedi eu cymhwyso'n feddygol sy'n arbenigo mewn cyflyrau'r llygaid. Hefyd caniateir iddynt brofi'ch llygaid a ffitio a chyflenwi sbectol a lensys cyffwrdd. Mae offthalmolegwyr ac OMPs wedi eu cofrestru gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Yn y llyfryn hwn disgrifiwn optometregwyr ac optegwyr dosbarthu yn **'optegwyr'**. Disgrifiwn bobl sydd wedi eu cofrestru gyda ni yn **'aelodau cofrestredig'**. Rydym yn defnyddio'r geiriau hyn yn y llyfryn yma i'w wneud yn gliriach i chi.

Beth yw rheoleiddio?

Mae rheoleiddwyr yn amddiffyn y cyhoedd drwy:
- gyfyngu pwy sy'n gallu ymarfer proffesiwn;
- gwneud yn siŵr bod eu haelodau cofrestredig wedi cymhwyso'n addas; a
- gwneud yn siŵr bod eu haelodau cofrestredig yn addas i ymarfer yn ddiogel.

Rydym yn un o naw rheoleiddiwr gofal iechyd yn y DU. Y rheoleiddwyr eraill yw:

- y Cyngor Ciropractig Cyffredinol;
- y Cyngor Deintyddol Cyffredinol;
- y Cyngor Meddygol Cyffredinol;
- y Cyngor Osteopathig Cyffredinol;
- Cyngor y Proffesiynau Iechyd;
- y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth;
- Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon; a
- Chymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr.

Rydym yn annibynnol ar y Llywodraeth. Mae ein gwaith yn cael ei adolygu gan gorff ar wahân o'r enw'r Cyngor dros Ragoriaeth wrth Reoleiddio Gofal Iechyd (CHRE).

Pam ydy hi'n bwysig cael profion llygaid rheolaidd?

Dylai profion llygaid rheolaidd fod yn rhan o'ch trefn iechyd arferol. Nid gwirio a oes angen sbectol arnoch chi i weld pellteroedd hir neu i ddarllen yn rhwydd yw unig ddiben archwiliad llygaid.

Gall archwiliad llygaid ddarganfod unrhyw broblemau iechyd sylfaenol hefyd, fel pwysedd gwaed uchel neu'r clefyd siwgr. Yn ystod archwiliad llygaid bydd eich optegydd yn gallu gwirio am gyflyrau llygaid mwy difrifol fel glawcoma neu ddirywiad macwlaidd (AMD).

I ddysgu mwy am gael archwiliad llygaid, ewch i **www.lookafteryoureyes.org** (gwefan a sefydlwyd gan Goleg yr Optometryddion).

Pam ydy hi'n bwysig bod f'optegydd wedi cofrestru?

Mae'n bwysig gwybod bod eich optegydd wedi cofrestru achos dim ond felly y gallwch chi fod yn hyderus bod y person sy'n edrych ar ôl eich llygaid wedi cael hyfforddiant priodol ac yn addas i ymarfer.

Os bydd rhywun yn galw ei hun yn optegydd pan na fyddan nhw wedi cofrestru gyda ni, maen nhw'n torri'r gyfraith.

Sut gall y GOC fy helpu i?

Gallwn eich helpu i wirio bod optegydd, myfyriwr neu fusnes optegol wedi cofrestru gyda ni.

Gallwch chi chwilio'n cofrestri i gadarnhau bod optegydd wedi cofrestru a gweld a ydyn nhw'n cael cyflawni gweithgarwch penodol. Hefyd gallwch chi ddefnyddio'n cofrestri i ddod o hyd i optegydd yn eich ardal chi. Rydym yn cyhoeddi'n cofrestri ar ein gwefan yn **www.optical.org**, ac rydych chi'n cael eu defnyddio'n rhad ac am ddim.

Os bydd eich optegydd yn dweud ei fod wedi cofrestru ond rydych yn methu ei weld ar ein cofrestri, gallai fod am nad yw ei enw cofrestredig yr un peth â'r enw mae'n ei ddefnyddio yn y gwaith. Os ydych chi am wybod a yw'ch optegydd chi wedi cofrestru, gallwch chi ffonio'n tîm cofrestru ar **020 7580 3898** (dewiswch opsiwn un).

Efallai y gwelwch chi'r logo hwn hefyd rhywle ym mhractis eich optegydd, ar eu gwefan neu lythyrau, neu ar eich cerdyn presgripsiwn. Mae'n cynnwys eu rhif cofrestru unigryw y GOC, neu rif eu practis, os yw'n fusnes cofrestredig.



Dim ond ymarferwyr a busnesau sydd wedi cofrestru gyda ni sy'n cael defnyddio'n logo cofrestredig. Er nad yw'r logo yn brawf ffurfiol o gofrestriad, mae'n rhoi rhif i chi felly gallwch chi wirio'r cofrestri ar-lein os ydych chi am wneud.

Beth mae'r rhif cofrestru yn ei olygu?

Mae'r rhagddodiad (01-, D-, SO- , SD- neu CO-) yn dangos pa gofrestr mae'r optegydd arni.

Rhagddodiad	**Beth mae'n ei olygu**
O1	Mae'r sawl a restrir yn optometrydd cymwys. Gallant archwilio'ch llygaid, profi'ch golwg a rhoi sbectol neu lensys cyffwrdd i chi. Gallant ddefnyddio rhai cyffuriau diagnostig, a rhoi archebion ysgrifenedig i fferyllwyr gyflenwi rhai meddyginiaethau penodol i gleifion.
D	Mae'r sawl a restrir yn optegydd dosbarthu cymwys. Gallant ffitio a chyflenwi sbectol a rhoi cymhorthion golwg isel i chi fel gwydrynnau llygaid, chwyddwydrau a thelesgopau os oes gennych olwg rhannol. Maent yn gymwys hefyd i ffitio a chyflenwi sbectol i blant dan 16 oed. Mae rhai optegwyr dosbarthu ar gofrestr arbennig hefyd sy'n caniatáu iddynt ffitio a chyflenwi lensys cyffwrdd.
CO	Mae'r cwmni a restrir yn fusnes cofrestredig sy'n gallu gweithio mewn optometreg a chyflenwi offer optegol fel sbectol a lensys cyffwrdd, fel y'u diffinnir uchod.
SO	Mae'r sawl a restrir yn fyfyriwr optometrydd. Gallant archwilio'ch llygaid, profi'ch golwg a rhagnodi sbectol neu lensys cyffwrdd **dim ond** pan gânt eu goruchwylio gan optometrydd cofrestredig neu ymarferwr meddygol cofrestredig.

SD Mae'r sawl a restrir yn fyfyriwr optegydd dosbarthu. Gallant ffitio a chyflenwi sbectol i blant a phobl â golwg rhannol **dim ond** pan gânt eu goruchwylio gan optegydd dosbarthu cofrestredig, optometrydd neu ymarferwr meddygol cofrestredig.

Gall rhif cofrestru unigol newid, er enghraifft pan fydd myfyriwr yn gorffen eu hyfforddiant ac yn newid cofrestr, neu os byddant yn gadael y gofrestr ac yn ailymuno â hi yn nes ymlaen. Rydym yn cadw cofnod o rifau blaenorol ar ein cronfa ddata. Mae pob rhif yn unigryw ac nid ydym byth yn ei roi i rywun arall.

Os bydd eich optegydd yn ymweld â chi gartref, dylai gario tystysgrif sy'n dweud eu bod wedi cofrestru gyda ni.

Sut mae'r GOC yn amddiffyn y cyhoedd?

Rydym yn rheoleiddio optegwyr unigol a busnesau optegol sydd wedi cofrestru gyda ni er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn bodloni'r safonau gofynnol o ran ymddygiad, addysg (gan gynnwys addysg barhaus i optegwyr sydd eisoes wedi cymhwyso) a pherfformiad.

Hefyd gallwn ni ymchwilio i gwynion am bobl sydd heb gofrestru gyda ni, ond sy'n cymryd arnynt eu bod yn optegwyr, neu sy'n cyflawni gweithgareddau gofal iechyd y caniateir i aelodau cofrestredig yn unig eu gwneud.

1 Pennu safonau ar gyfer addysg, hyfforddiant, perfformiad ac ymddygiad optegol
Rhaid i optegwyr sy'n dymuno cofrestru gyda ni fodloni ein safonau gwybodaeth, sgil ac ymddygiad. Pennir y rhain mewn dwy ddogfen, 'Standards in competence' (gwybodaeth a sgil) a 'Standards in conduct' (ymddygiad). Rhaid i fusnesau optegol sy'n dymuno cofrestru gyda ni fodloni ein safonau ar gyfer busnesau hefyd (nodir y rhain yn y Cod Ymddygiad i Fusnesau Cofrestredig). Fe welwch wybodaeth am y safonau hyn ar ein gwefan yn **www.optical.org**.

2 Cymeradwyo'r cymwysterau sy'n arwain at gofrestriad
Mae angen hyfforddiant ar optegwyr i gyflwyno safonau gofal llygaid da. Rydym yn asesu ac yn cymeradwyo'r cyrsiau a gymerir gan fyfyrwyr sy'n hyfforddi i fod yn optometryddion neu'n optegwyr dosbarthu yn y DU i wneud yn si?r bod yr hyfforddiant yn bodloni'n safonau. Rydym yn penderfynu beth sy'n mynd i mewn i'r holl gyrsiau a chymwysterau sy'n arwain at gofrestru gyda ni. Rydym yn cynnal ymweliadau sicrhau ansawdd i gadarnhau bod y cyrsiau a'r asesiadau a ddarperir gan gyrff addysg ac arholi yn cyrraedd ein safonau.

3 Cyhoeddi cofrestr o optegwyr dosbarthu, optometryddion, myfyrwyr a busnesau optegol yn y DU
Rhaid i optometryddion ac optegwyr dosbarthu gael eu cofrestru gyda ni i ymarfer yn y DU. Rydym yn cyhoeddi cofrestri o'r holl optometryddion, optegwyr dosbarthu, myfyrwyr optegol a busnesau optegol sy'n gymwys ac yn addas i ymarfer, yn hyfforddi neu'n cynnal busnes. Rhaid bod gan bob aelod cofrestredig yswiriant indemniad. Hefyd rhaid iddynt gwblhau swm gofynnol o Addysg a Hyfforddiant Parhaus (CET) i aros yn gofrestredig ac i ymarfer.

4 Ymchwilio a gweithredu ar bryderon am unrhyw un sydd wedi cofrestru gyda ni
Gallwn ni gymryd camau os gall 'addasrwydd i ymarfer' aelod cofrestredig gael ei 'amharu' (effeithio'n negyddol) am nifer o resymau a bennir yn Neddf Optegwyr 1989, gan gynnwys iechyd gwael, ymddygiad neu berfformiad.

5 Ymchwilio a gweithredu ar gwynion bod pobl nad ydynt ar ein cofrestr yn cymryd arnynt eu bod yn optegwyr, neu'n cynnal gweithgareddau cyfyngedig
Os bydd rhywun sydd heb gofrestru gyda ni yn cymryd arno ei fod, neu maen nhw'n cyflawni unrhyw weithgareddau y caniateir i aelodau cofrestredig yn unig eu gwneud (fel profion llygaid neu roi sbectol i blant o dan 16 oed), byddwn yn cymryd camau priodol. Mae gennym bolisi am sut rydym yn ymdrin ag ymchwiliadau troseddol ac erlyniadau, sy'n cael ei esbonio yn ein Protocol ar Ymchwilio ac Erlyn Tramgwyddau Troseddol. Gallwch chi weld hwn ar ein gwefan yn www.optical.org.

Cwyno am optegydd, myfyriwr neu fusnes cofrestredig

Mae ein haelodau cofrestredig yn weithwyr proffesiynol cymwys iawn ac fel arfer maen nhw'n darparu gwasanaethau rhagorol. Weithiau gall fod problem, a allai fod yn gysylltiedig â:

- pherfformiad proffesiynol gwael, fel methu â sylwi ar arwyddion clefyd llygaid
- problemau iechyd corfforol neu feddyliol sy'n effeithio ar eu gwaith
- ymddygiad amhriodol, fel trais neu ymosodiad rhywiol
- bod dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau wrth eu gwaith
- twyll neu anonestrwydd; neu
- gollfarn droseddol neu rybudd.

Os ydych yn anfodlon ar y driniaeth rydych chi wedi ei derbyn gan eich optegydd, neu os ydych chi'n poeni am ymddygiad neu iechyd eich optegydd, dylech chi siarad yn gyntaf â rheolwr y practis a dilyn gweithdrefn gwyno'r practis. Os na fydd hynny'n datrys y broblem er eich boddhad, neu os nad ydych chi'n dymuno cwyno i'r practis yn uniongyrchol, dylech chi ddweud wrthym ni.

Sut mae cwyno i'r GOC?

Os ydych chi'n dymuno cwyno am un o'n haelodau cofrestredig, gallwch chi weld sut mae gwneud hynny yn ein llyfryn 'Sut i gwyno am optegydd'. Gallwch chi gael copi o'r llyfryn hwn o'n gwefan yn **www.optical.org** neu drwy ffonio **020 7580 3898** (dewiswch opsiwn pump).

Os bydd un o'n haelodau cofrestredig yn methu â bodloni'n safonau ac yn anaddas i ymarfer am eu bod yn methu gwneud eu swydd yn ddiogel ac yn effeithiol, gallwn ni eu hatal rhag gweithio yn y DU (sy'n cael ei alw'n aml 'tynnu eu henw'). Neu, gallwn ni gyfyngu'r math o waith y caniateir iddyn nhw ei wneud. Mae ein pwerau i weithredu fel hyn yn debyg iawn i'r pwerau sydd gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol dros feddygon.

Os ydych chi am gwyno am rywun sydd heb gofrestru gyda ni ond sy'n cymryd arno ei fod, neu maen nhw'n cyflawni unrhyw weithgareddau y caniateir i aelodau cofrestredig yn unig eu gwneud, ffoniwch ein tîm ymarfer ar 020 7580 3898 (dewiswch opsiwn pump).

Beth os yw fy mhroblem yn ymwneud â sbectol ddiffygiol?

Mae ein llyfryn 'Sut i gwyno am optegydd' yn esbonio'r mathau o gwynion gallwn ni ddelio â nhw. Ni allwn eich helpu gyda hawliad am iawndal am sbectol neu lensys cyffwrdd diffygiol. Os oes gennych chi'r math hwn o gŵyn, dylech chi fynd yn gyntaf yn ôl i'r practis lle prynoch chi'r sbectol neu lensys a dilyn eu gweithdrefn gwyno. Os na fydd hynny'n gweithio, efallai y bydd y Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol yn gallu eich helpu (mae eu manylion ar ddiwedd y llyfryn hwn).

Os ydych yn poeni am hysbysebion camarweiniol, gweler **'Cysylltiadau defnyddiol eraill'** am wybodaeth am gwyno i'r Awdurdod Safonau Hysbysebu.

Cysylltwch â ni

General Optical Council
41 Harley Street
London W1G 8DJ

Ffôn: 020 7580 3898
Ffacs: 020 7307 3939
E-bost: goc@optical.org
Gwefan: www.optical.org

Cysylltiadau defnyddiol eraill

Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol
Am help gyda materion fel cael ad-daliad am sbectol ddiffygiol, ffoniwch y Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol (OCCS) ar 0844 800 5071 neu ewch i **www.opticalcomplaints.co.uk**.

Yr Awdurdod Safonau Hysbysebu
I gwyno am hysbysebu ffug neu gamarweiniol, ffoniwch yr Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA) ar 020 7492 2222 neu ewch i **www.asa.org.uk**.

Cyngor ar Bopeth
Os nad ydych chi'n si_r wrth bwy i gwyno, neu os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, ffoniwch Gyngor ar Bopeth ar 020 7833 2181 neu ewch i **www.citizensadvice.org.uk**.

Ieithoedd eraill

Allwch chi gael y llyfryn hwn yn Saesneg drwy fynd i **www.optical.org.**